***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Paragraff 6. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 1

### CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

### **RHAN 2**

### AELODAU

*Penodi'r aelod cyswllt*

6 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan—

(a) bo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan Gorff Llais y Dinesydd, a

(b) bo swydd yr aelod cyswllt yn wag.

(2) Rhaid i'r aelodau anweithredol wahodd pob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan y Corff i enwebu ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt y Corff.

(3) Rhaid i'r gwahoddiad bennu'r cyfnod y mae enwebiad i'w wneud ynddo.

(4) Rhaid i'r aelodau anweithredol benodi person, o blith yr ymgeiswyr cymwys a enwebir yn ystod y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3), fel aelod cyswllt y Corff.

(5) Nid yw person yn ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt y Corff, ond os yw'r person—

(a) yn aelod o staff y Corff, a

(b) yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Corff.

(6) Yn y Rhan hon—

mae i "cydnabod", mewn perthynas ag undeb llafur, yr ystyr a roddir i "recognised" gan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52);

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" gan y Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(s)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Paragraff 6.